## GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG

### 207 - Rheoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cytundeb Ymadael) (Ymadael â'r UE) 2020

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 30 Tachwedd 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Gweithdrefn: | Gwneud Negyddol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Anhysbys |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Gwneud Negyddol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag 8B ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Deddf 2018). Mae adrannau 8B ac 8C o Ddeddf 2018, fel y'i cyflwynwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020, yn rhoi pwerau i weithredu Rhan 3 o'r Cytundeb ar ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ôl â'r Undeb Ewropeaidd ("y Cytundeb Ymadael") a'r Protocol Diwygiedig i'r Cytundeb Ymadael ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon ("Protocol Gogledd Iwerddon"). Nid yw'r Rheoliadau yn cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir ond maent yn ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

**Crynodeb**

Fel rhan o adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r DU yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yn System Fasnachu Allyriadau'r UE ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Erthygl 9 ac Atodiad 4 o Brotocol Gogledd Iwerddon. Maent yn darparu sail barhaus i allyriadau o gynhyrchu trydan yng Ngogledd Iwerddon (ar gyfer y farchnad drydan cyfanwerthu sengl yn Iwerddon a Gogledd Iwerddon) barhau i fod yn ddarostyngedig i System Fasnachu Allyriadau'r UE. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cefnogi ymadawiad esmwyth o System yr UE drwy sicrhau sail ddeddfwriaethol briodol i weithredwyr y DU gwblhau eu cyfranogiad yn y cynllun ar ddiwedd blwyddyn 2020 y cynllun, tra'n parhau i gyflawni eu rhwymedigaethau cydymffurfio ar gyfer y flwyddyn honno, sy'n ddyledus yn 2021, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 96(2) o'r Cytundeb Ymadael.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 2 Rhagfyr 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

- Mae'r datganiad yn cadarnhau:

  "*Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio deddfwriaeth ddomestig sydd i raddau helaeth yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chynllun masnachu carbon a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth*."

  Fodd bynnag, nid yw datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi pa rai o bwerau deddfwriaethol y Senedd na pha rai o bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru y mae'r offeryn hwn yn effeithio arnynt. Mae'r cynghorwyr cyfreithiol yn argymell ceisio eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig yr effeithir arnynt.

- Nid yw'r datganiad hwn y gwneud unrhyw gyfeiriad at y ffaith nad yw'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE ond eu bod yn ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r cynghorwyr cyfreithiol yn argymell gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch pa arwyddocâd, os o gwbl, sydd gan hyn, yn enwedig yng nghyd-destun y geiriad canlynol o ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru:

  "*Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan am resymau effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r diwygiadau hyn i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ôl i'r DU adael yr UE, drwy ddiwygio neu ddirymu darpariaethau a fyddai fel arall yn amhosibl i'w gweithredu.*"

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Gan ei bod yn aneglur o ddatganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 2 Rhagfyr 2020, beth fydd effaith bosibl y Rheoliadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gallu asesu a oes unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.